



# Prosiect Stori Castell y Waun 2019

## *Brîff i Gynhyrchydd Creadigol*

### **Cefndir**

Yn ei leoliad strategol ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, adeiladwyd Castell y Waun tua diwedd y 13eg ganrif yn dilyn goresgyniad y Brenin Edward I ac mae'n agos at y ffin hanesyddol, sef Clawdd Offa – sy'n Heneb Restredig.

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o gestyll Cymru o'r cyfnod a adeiladwyd ac a weinyddwyd gan y Goron, adeiladwyd y Waun gan unigolyn preifat. Roedd ei berchennog, Roger Mortimer, yn un o nifer o Arglwyddi grymus y Mers y rhoddwyd awdurdod iddynt gan y Brenin i weinyddu cyfiawnder, trethi a rheolaeth filwrol ar y gororau. Ar ôl marwolaeth Mortimer yn 1326, aeth y castell a'r tiroedd trwy ddwylo rhai o ffigyrau mwyaf grymus a dylanwadol hanes y Canol Oesoedd, ac fe'i defnyddiwyd gan y Goron i wobrwyo teyrngarwch ac i gosbi'r rhai oedd wedi colli ffafr y frenhiniaeth yn eu tro.

Yn 1595 prynodd Syr Thomas Myddelton y castell, a sefydlu llinach a barhaodd am 400 mlynedd yn berchenogion ar y castell. Mae'r olyniaeth o ran perchenogaeth wedi sicrhau bod y casgliad rhyfeddol sydd o fewn y castell wedi goroesi, gan gynnwys eitemau o bwysigrwydd cenedlaethol fel casgliad o lyfrau o'r 17eg ganrif a dau gwpwrdd, yn ogystal â stad sydd yn unigryw yn lleol gan ei bod wedi ei rheoli ers dros 700 mlynedd. Roedd y teulu Myddelton yn weithredol yn ystod y Rhyfel Cartref, ac yn ddiweddarach roeddent yn wleidyddion, entrepreneuriaid a diwydianwyr.

O 1911 i 1946 rhoddwyd Castell y Waun ar brydles i Thomas Scott-Ellis, yr 8fed Arglwydd Howard De Walden, oedd â chysylltiadau teuluol â Dinbych ac a deimlai gysylltiad cryf â Chymru ac ymdeimlad o berthyn iddi. Yn ystod y cyfnod hwn gwelodd y castell gyfnod o ail-eni wrth i awduron, deallusion ac artistiaid amlwg heidio i Gastell y Waun. Daeth teulu Howard De Walden hefyd yn noddwyr hael i'r iaith Gymraeg a'r celfyddydau yng Nghymru, gan gynnal ac ariannu'r Eisteddfod yn ystod yr 1930au. Diweddarwyd y castell a'r gerddi i'w gwneud yn addas i fywyd modern.

Yn 1978 rhoddwyd Castell y Waun, y gerddi a'r parcdir i'r genedl gan deulu Myddelton ac yn 1981 fe'u trosglwyddwyd i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Yn 2018 amlygodd Cynllun Rheoli Cadwraeth Castell y Waun bod stori Castell y Waun yn un anodd i ymwelwyr ei dilyn, ac mae natur y gofodau a'r ystafelloedd mewnol yn atal cylchdaith Gronolegol syml i'r ymwelwyr.

Sefydlwyd prosiect Stori 2019 i ddynodi a phrofi dulliau newydd o ddehongli'r safle. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn rhoi ffordd i ni wella'r modd yr ydym yn dehongli ac yn adrodd y

stori, a gwneud ein stori yn haws i bobl ei dilyn cyn i ni gychwyn ar raglen fwy uchelgeisiol o 2021 (40 mlwyddiant yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghastell y Waun).

## Brîff

Mae arnom angen rhywun i reoli prosiect stori Castell y Waun yn 2019/20. Bydd hyn yn cynnwys datblygu a phrofi 2-3 dull gwahanol o ddehongli ac adrodd stori'r eiddo, gyda'r nod o allu cynnig tystiolaeth a all awgrymu ffyrdd newydd o weithio a chefnogi prosiect mwy i newid a gwella taith yr ymwelydd ar y safle.

Bydd eich rôl yn cynnwys:

- Gweithio gyda staff yr eiddo i ddynodi pa ofodau fydd orau i dreialu gwahanol ddulliau o adrodd y stori/dehongli.
- Datblygu cynllun ar gyfer dulliau dehongli newydd i helpu i ddatrys rhai o'r problemau a ddynodwyd yn y Cynllun Rheoli Cadwraeth a'r ddogfen 'Prosiect Stori Greiddiol Castell y Waun 2019' (gallwn anfon y ddogfen hon atoch trwy e-bost os gofynnir amdani).
- Pwysu a mesur a chreu brîff ar gyfer treialu dulliau dehongli newydd, a chomisiynu cynlluniau treialu pan fydd yn berthnasol i'w profi.
- Rhywfaint o gysylltu gyda gwirfoddolwyr a staff Castell y Waun fel eu bod yn rhan o'r prosiect ac yn cael cyfleoedd i roi eu mewnbwn.
- Gweithio'n glos gyda Rheolwr Profiad Ymwelwyr Castell y Waun a Rheolwr y Tŷ a'r Casgliad yng Nghastell y Waun i gyflawni deilliannau'r prosiect.
- Cytuno ar dechnegau gwerthuso a chynhyrchu adroddiad ar y dulliau newydd â dreialwyd fydd yn helpu staff yr eiddo i ddatblygu'r hyn sydd gan Castell y Waun i'w gynnig ac y gellir ei ddefnyddio mewn eiddo arall sy'n mynd trwy broses debyg.
- Mynychu cyfarfodydd tîm a'r diweddariadau am y prosiect yn ôl y gofyn a chyflwyno eich canfyddiadau. Rheoli eich cyllideb yn effeithiol.

## Hanfodol

- Profiad a hanes o gynhyrchu ymateb creadigol i helpu i ddweud stori (dehongli, gosodiadau, perfformio, digwyddiadau ac ati).
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol a'r gallu i ryngweithio ac ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl wahanol, rhanddeiliaid a phartneriaid.
- Sgiliau gweinyddol a TG rhagorol – yn gallu rheoli cyllideb ac anghenion logisteg gan roi sylw i fanylion a chywirdeb.
- Unigolyn rhagweithiol llawn cymhelliant, sy'n gallu cadw at ddyddiadau cau a rheoli nifer o brosiectau yn gyflym a hyblyg.
- Gwybodaeth gref a phrofiad o ddehongli creadigol ac arferion artistig.
- Ymrwymiad i weithio gydag eraill a rhannu'r hyn a ddysgwyd.

- Profiad o gomisiynu a datblygu gwaith.
- Sgiliau cyfathrebu da.
- Diddordeb mewn hanes a threftadaeth.

## Dymunol

- Profiad o weithio mewn busnes ymwelwyr.
- Profiad o ddatblygu dehongliad o dreftadaeth.

## Cyllideb ac amserlen

Y gyllideb ar gyfer y prosiect hwn yw £20,000, i gynnwys yr holl gostau. Rhaid i'r gwaith paratoi ar gyfer y prosiect hwn gael ei gwblhau erbyn diwedd Chwefror 2020 – er mwyn rhoi amser i dreialu rhwng Mawrth ac Awst 2020, ac yna gwerthuso ym mis Medi 2020.

## Eich Cynnig

Byddem yn hoffi i chi nodi eich dull o ymdrin â'r brîff hwn, ac amlygu eich cryfderau, sgiliau neilltuol a'r meysydd perthnasol yr ydych yn arbenigo ynddynt.

Byddem yn hoffi gwybod:

- Pam eich bod chi am weithio ar y prosiect hwn?
- Sut yr ydych yn bwriadu cyflawni'r brîff?
- Faint o'ch amser fyddwch chi'n ei dreulio ar y brîff?

Rhowch fanylion eich costau, a sut y byddech yn defnyddio'r gyllideb.

Rhowch unrhyw wybodaeth berthnasol am eich portffolio a fydd yn dangos pa mor addas ydych ar gyfer y prosiect.

Anfonwch e-bost i ofyn am gopi o'r llyfryn cysyniad Stori Greiddiol Castell y Waun, sy'n cynnwys gwybodaeth gefndirol ychwanegol.

Cyfeiriwch unrhyw ymholiadau at [Karen.george@nationaltrust.org.uk](mailto:karen.george@nationaltrust.org.uk) a [jon.hignett@nationaltrust.org.uk](mailto:jon.hignett@nationaltrust.org.uk)

A chopi i [chirkcastle@nationaltrust.org.uk](mailto:chirkcastle@nationaltrust.org.uk)

**Dyddiad Cau:** 13 Medi 2019

**Dyddiad cyfweiliad:** Dydd Iau 19 Medi 2019